

Mae'r rhain yn disgrifio'r ystod eang o fesurau sy'n cael eu cymryd nawr i gefnogi stociau eogiaid a sewin:

- Casglu a gwerthuso tystiolaeth
- Rheoleiddio a gorfodi
- Cysylltedd ac ansawdd cynefinoedd
- Mynd i'r afael â phwysau ysglyfaethu.
- Ansawdd dŵr
- Rheoli tir
- Pwysau morol

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar boblogaethau'r eog, byddwn yn ceisio ail-flaenoriaethu cynllun gweithredu CNC, er mwyn sicrhau ein bod yn targedu'r sefyllfaoedd mwyaf brys. Bydd mwy o bwyslais ar weithio gyda pherchnogion tir, y llywodraeth a Sefydliadau Anllywodraethol (NGOs) ar fentrau i ddatblygu gallu afonydd i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Cwestiwn gan: Kim @ Undeb Afonydd Cymru

A oes gan CNC dargedau lleihau llygredd clir iawn i'w rhoi i Dŵr Cymru?

Ymateb CNC:

Mae CNC yn defnyddio methodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) i osod targedau perfformiad amgylcheddol heriol ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Mae'r EPA wedi'i safoni ar draws Cymru a Lloegr. Mae hyn yn caniatáu i berfformiad y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf gael ei fonitro a'i asesu mewn ffordd gyson gan y rheoleiddwyr amgylcheddol. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i roi sylw i berfformiad gwael gan gwmnïau meincnodi. Mae ein hasesiad perfformiad yn cynnwys targedau ar gyfer lleihau cyfanswm y digwyddiadau llygredd, digwyddiadau difrifol a hunan-adrodd. Mae'r trothwyon coch, oren a gwyrdd ar gyfer metrigau EPA wedi'u nodi yn ein methodoleg EPA (y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chyhoeddi ar ei gwefan yma [Water and sewerage companies in England: EPA metric guide for 2021 - GOV.UK](http://www.gov.uk) (www.gov.uk))

- Ar gyfer cyfanswm yr achosion o lygredd, mae ein methodoleg yn gosod llwybr ar gyfer pum mlynedd AMP7, gan anelu at 19 digwyddiad neu lai i bob carthffos 10 000 cilometr erbyn 2025 (blwyddyn 5).
- Ar gyfer digwyddiadau llygredd difrifol, mae ein methodoleg yn gosod llwybr ar gyfer pum mlynedd AMP7, a'r targed yw sero erbyn 2025.
- Ar gyfer hunan-adrodd digwyddiadau, y targed yw 80% neu fwy, a 90% neu fwy, ar gyfer Gorsafoedd Pwmpio a WwTW gyda'i gilydd.

Rydym yn adrodd ar berfformiad cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn flynyddol, gan gyhoeddi ein hadroddiadau bob mis Gorffennaf (felly bydd adroddiad 2022 yn cael ei gyhoeddi yn fuan):

[Adroddiad perfformiad blynyddol 2021 Dŵr Cymru](#)
[Adroddiad perfformiad blynyddol 2021 HD](#)

Noder fod trothwyon metrig yr EPA yn cael eu hadolygu bob pum mlynedd i sbarduno gwelliannau'n barhaus. Yr adroddiad ar berfformiad 2021 yw'r flwyddyn gyntaf y gwnaethom asesu perfformiad yn erbyn metrigau EPA tynnach ac ehangach y cyfnod EPA pum mlynedd newydd (2021-25). Mae'r newidiadau i'r metrigau yn sicrhau ein bod yn parhau i bwysu ar y cwmnïau dŵr i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a sicrhau bod ein disgwyliad ar y cwmnïau dŵr i barhau i bwysu am welliant yn glir.

